

Cymraeg Mewn Ymarfer Proffesiynol 1
ECAD4020
2024-25



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre *for* Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru


Darlith 3:
Rhannau Ymadrodd
17.10.2024

n.evans@pcydds.ac.uk



CANOLFAN
GWASANAETHAU
CYMRAEG
WELSH LANGUAGE
SERVICES CENTRE

Allwedd:




Drilio




Ymarfer ar
lafar (yn
unigol)




Tasg
wrandu




Gwaith
pâr



Grŵp o
dri




Gwaith
grŵp




Amser
canu



Gwaith ar y
byrddau gwyn



Tasg
ysgrifennu



Tasg
ddarllen



Help llaw



Tystiolaeth i'r
Portffolio



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Beth ydy rhannau ymadrodd?

- Termau gramadegol sy'n ein helpu ni i wybod sut mae geiriau'n ymddwyn e.e. sut a pham maent yn treiglo, beth yw eu lleoliad mewn brawddeg a.y.y.b.
- Enghreifftiau: enw, berf.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Pa rannau ymadrodd?



Mae Aled Afal yn wyrdd.

berf (amser presennol)

enw priod

ansoddair



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

enw

rhagenw

ansoddair

cysylltair

arddodiad

y fannod

berfenw

berf

goddrych
berf

gwrthrych
berf

adferf



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Gair sy'n cael ei roi ar rywbeth er mwyn ei adnabod a gwybod beth ydyw e.e. cadair.	Gair a ddefnyddir yn lle enw. e.e. fi, ti, chi.	Gair sy'n disgrifio enw neu ragenw h.y. dweud sut beth ydyw e.e. bach.	Gair sy'n cysylltu geiriau, cymalau neu frawddegau e.e. afal ac oren.
Gair sy'n dangos y berthynas rhwng un person neu beth a pherson neu beth arall. e.e. ar y bwrdd.	Gair sy'n gwneud enw'n benodol ydyw a cheir tair ffurf bendant yn y Gymraeg: y, yr 'r .	Gair sy'n dangos enw'r gweithgaredd yn unig e.e. ysgrifennu.	Gair sy'n nodi beth sy'n cael ei wneud. Mae'n cyflawni tair swyddogaeth - dangos person (fel arfer), amser a gweithred .
Dyma'r un sy'n gwneud y weithred.	Dyma'r un sy'n dioddef y weithred.	Gair sy'n disgrifio berf , ansoddair neu adferf arall.	

Enw / Enwau (*noun/s*)








Esboniad: Gair sy'n cael ei roi ar rywbeth er mwyn ei adnabod a gwybod **beth** ydyw.

Mae gan bob enw ffurf **unigol** a **lluosog** e.e. problem / problemau; plentyn / plant.







Mae i bob enw yn y Gymraeg **genedl** h.y. mae pob enw naill ai yn **wrywaidd(eg)** neu'n **fenywaidd (eb)** e.e. y gwaith **hwn**, y gadair **hon**.

Serch hynny, ceir rhai enghreifftiau sy'n gallu bod yn fenywaidd neu'n wrywaidd (**egb**) e.e. munud, llygad, cwpan.

Llyfrau defnyddiol i'r dosbarth cynradd...



Llyfrau defnyddiol i chi...




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth



Esboniad o'r gair.




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth



Cenedl yr enw.

cadair hon *enw* (**cadeiriau**) sedd i un
person **CHAIR**

Esboniad.

Cyfieithiad.

Ffurf lluosog.




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth



Cenedl yr enw: (*eb*) enw benywaidd.
y gadair hon.

Ffurf
lluosog.

cadair hon *eb* (cadeiriau)

1 sedd â chefn a phedair coes ar gyfer un person; stôl
CHAIR

2 (mewn enwau lleoedd) mynydd ar ffurf cadair, neu le
cadarn neu gaer, e.e. *Cadair Idris*, *Pencadair* (sef
Pencader)

3 pwrs, piw buwch neu ddafad neu afr UDDER

4 gwobr eisteddfodol i feirdd neu lenorion; yn yr
Eisteddfod Genedlaethol rhoddir y gadair i un o
brifeirdd yr ŵyl, y bardd sy'n ennill cystadleuaeth yr
awdl CHAIR

5 swydd athro mewn prifysgol CHAIR (cadeiriol)

cadair esmwyth cadair fawr gyfforddus EASY CHAIR

Ystyron
gwahanol.




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Defnyddio geiriadur yn y dosbarth



Cenedl yr enw: (eg) enw gwrywaidd.
y bwrdd hwn.

Ffurf
lluosog.

bwrdd *eg* (byrddau)
1 dodrefnyn â thop gwastad ar goes neu goesau y gellir eistedd wrtho i fwyta, gweithio, chwarae, etc.; bord table
2 (*yn derbyn ffurf unigol neu luosog berf*) grŵp swyddogol o bobl sy'n arfer cynnal eu cyfarfodydd o gwmpas bwrdd; corff, pwyllgor board
3 llawr, llong; dec deck
4 astell, planc, ystyllen plank
5 darn o ddefnydd ag wyneb gwastad at ddefnydd arbennig, *bwrdd hysbysebion*, *bwrdd sglefrio* board
bwrdd bysedd *eg* (byrddau bysedd)
CERDDORIAETH y gwddf hir ar offeryn llinynnol (megis feiolin, gitâr, etc.) y mae tannau'n cael eu gwasgu yn ei erbyn â'r bysedd er mwyn amrywio'r nodau; brân fingerboard

Ystyron
gwahanol.

Adnoddau defnyddiol: Geiriadur ar lein

Geiriadur yr Academi

The Welsh Academy English-Welsh Dictionary

Bruce Griffiths, Dafydd Glyn Jones

A B C D E F G H I J K L M N O P Q R S T U V W X Y Z

book

Chwilio

► Chwilio Uwch

Gwedd: ☒ Traddodiadol ☐ Cyfoes

Tudalen: 1 o 1.

Cofnod: 1 - 2.

book¹ *n.* [-]

1. (a). llyfr *m* (llyfrau) **the Book of Common Prayer** Llyfr Gweddi Gyffredin **in my book (that's unfair)** *F*: yn fy marn i (mae hynna'n annheg), fel y gwelaf i'r peth (mae hynna'n annheg), fel y gwelaf i bethau (mae hynna'n annheg) **to speak by the book** siarad gyda charn da **book of hours** orlyfr *m* (orlyfrau), llyfr oriau **school book** llyfr ysgol, llyfr testun,



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Adnoddau defnyddiol: Geiriadur ar lein



the Welsh-English Dictionary

Articles

laith

WelshEnglish

▲

Ilyfndeg

Ilyfnder

Ilyfndew

Ilyfndra

Ilyfngwrn

Ilyfnhau

Ilyfnion

Ilyfnochr

Ilyfnochrau

Ilyfnu

Ilyfr

Ilyfrau

Details

See more in the Thesaurus

Phrases (13)

Ilyfr  (hwn) *noun masculine* (Ilyfrau)

1 casgliad o ddalennau wedi'u rhwymo ynghyd y tu mewn i glorïau, i'w darllen neu i ysgrifennu arnynt **book**¹

2 un o brif raniadau gwaith mawr ysgrifenedig, e.e. y Beibl neu gerdd hir (iawn) **book**¹

3 unrhyw beth wedi'i gasglu ynghyd ar ffurf llyfr, *llyfr stampïau*; cyfrol, copi **book**¹

Adnoddau defnyddiol: Terminoleg byd addysg

Y Termiadur Addysg

cartref | chwilio am derm | pori a-z | adnoddau ▾ | gwybodaeth ▾ | ENGLISH

Croeso

i wefan Y Termiadur Addysg.

Hon yw'r wefan a noddir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darparu termau safonol yn y byd addysg.

Rhain yw'r termau i'w defnyddio mewn arholiadau ac asesiadau cyfrwng Cymraeg ac mewn adnoddau o bob math ar gyfer athrawon a disgyblion.

CHWILIO




lloeren
satellite



Adnoddau defnyddiol

Apiau



Cysill: Gwirydd Sillafu a Gramadeg

Cysgeir: Casgliad o eiriaduron electronig



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David


Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru



Adnoddau defnyddiol

Prif sgrin Cysgeir



Enw / Enwau *Noun/s*

1. enw priod: enw person, peth, iaith neu le arbennig e.e. William, Dafydd, Caerdydd, Ysgol y Wern, mis Mai, Y Pasg a.y.y.b. Ceir **prif lythyren** ar ddechrau **enw priod** bob amser.

2. enw torfol: enw ar gasgliad o bobl neu bethau e.e. tyrfa, haid.

3. enw diriaethol: enw ar rywbeth go iawn h.y. rhywbeth y gallwn ni gyffwrdd ag e e.e. bwrdd, cadair.

4. enw haniaethol: enw ar rywbeth na allwn ni ei gyffwrdd e.e. hapusrwydd, cariad.

Nia

cap

tap

Cai

mat

Llio

map

Jac

Rhys

Efa

can

dŵr



Rhagenw / Rhagenwau

Pronoun/s

Esboniad: Gair a ddefnyddir yn lle enw.

e.e. fi, ti, fe, nhw, ninnau, hwn

Sylwch ar y gwahaniaeth rhwng y ddwy frawddeg ganlynol:

Mae **Siân** yn hoff iawn o'i gwaith. (enw)

Mae **hi**'n hoff iawn o'i gwaith. (rhagenw)

Ydych chi'n cofio?



Mae Aled Afal yn wyrdd.



berf (amser presennol)



enw priod




ansoddair



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru



Mae e'n hapus.



berf (amser presennol)



rhagenw



ansoddair



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Ansoddair / Ansoddeiriau

adjective/s

Esboniad: Gair sy'n disgrifio enw neu ragenw h.y. dweud **sut** beth ydyw, e.e.

sefyllfa **anodd**

pryder **mawr**

prydau bwyd **blasus**

merch **weithgar**

Fel arfer yn y Gymraeg mae'r ansoddair yn dod **ar ôl** yr enw. Serch hynny mae rhai sy'n digwydd fynychaf **o flaen** yr enw (sylwer y ceir treigladd meddal **ar ôl** ansoddair),

e.e. **hen** wers

hoff liw

annwyl ferch

unig gyfle




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Sawl ansoddair ...?



- Sawl ansoddair gallwch chi feddwl amdanyn nhw wrth ddisgrifio'r llun?
- Gwnewch restr.





Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Yn y dosbarth,
gallwch
ddefnyddio
lluniau tebyg i
hyn gan ofyn i'r
disgyblion feddwl
am ansoddeiriau
addas.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Cysylltair / Cysylltieirau

Conjunction/s

Esboniad: Gair sy'n **cysylltu** geiriau, cymalau neu frawddegau.

e.e. trefniadau **a** chynlluniau
un **neu** ddau

- Roedd John yn hwyr i'r gwaith **oherwydd** / **o achos** y ddamwain.
- Aeth John yn ôl i'w sedd **ond** ni lwyddodd i gwblhau'r gwaith.
- Mae hi'n brysur yma heddiw. Mae pawb yn gweithio fel lladd nadroedd > Mae hi'n brysur yma heddiw **ac** mae pawb yn gweithio fel lladd nadroedd.

Arddodiad / Arddodiaid

Preposition/s

Esboniad: Gair sy'n dangos y berthynas rhwng un person neu beth a pherson neu beth arall. Yn aml, mae arddodiad yn disgrifio **ble mae** un peth mewn perthynas â rhywbeth arall.

- e.e. Mae'r gwaith **ar** y ddesg.
Mae'r disgyblion **yn** y dosbarth.
Mae'r ffeiliau **wrth** y drws.



tu ôl

o flaen

tu mewn

uwch ben

o dan

rhwng

ar bwys

wrth

Yn y dosbarth,
gallwch ddefnyddio
lluniau tebyg i hyn
gan ofyn i'r
disgyblion
ddefnyddio'r
arddodiaid wrth
greu brawddegau.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Yn y dosbarth,
gallwch ddefnyddio
lluniau tebyg i hyn
gan ofyn i'r
disgyblion
ddefnyddio'r
arddodiaid wrth greu
brawddegau.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru




Bannod (Y fannod) *the article*

Esboniad: Gair sy'n gwneud enw'n **benodol** yw bannod a cheir tair ffurf ar y fannod bendant yn y Gymraeg: **y, yr 'r** (sef **the** yn Saesneg). Ni cheir bannod amhendant yn y Gymraeg - h.y. **a** neu **an** yn Saesneg.

e.e. **y** bobl

yr amser a'**r** ymdrech

Mae'**r** disgybl yn gweithio'n gyson.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Berf / au *verb/s*

Ceir chwe pherson i bob berf:

UNIGOL

1. fi
2. ti
3. e/o/ hi

Gwelais i
Gwelaist di
Gwelodd e/o/ hi

LLUOSOG

1. ni
2. chi
3. nhw

Gwelon ni
Gweloch chi
Gwelon nhw



Pa un sydd ddim yn perthyn?



1. rhedeg

2. cerdded

3. cerddodd

1. bwyta

2. darllenon

3. chwarae

1. siarad

2. cyflym


3. gweithio

1. bwytoch

2. gofynnais

3. edrychais

Chwarae Chwap!



Cyfarwyddiadau i'r tiwtor:

1. Ar y sgrîn fawr, dangoswch y sleid nesaf.
2. Rhannwch y dosbarth yn ddau dîm.
3. Dewiswch un o bob tîm i ddod i'r blaen.
4. Rhowch 'wasgwr pryfaid' yr un iddynt.
5. Dwedwch y cwestiwn sydd ar dop y sleid.
6. Yr un cyntaf (o'r ddau) i wasgu'r gair fydd yn ennill pwynt i'w tîm.
7. Gallwch newid aelod o'r tîm neu barhau gyda'r un ddau tan ddiwedd y gêm.
8. Mwynhewch!



Pa un ydy'r enw?

ysgrifennu

cadair



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Adferf / Adferfau

adverb/s

Esboniad: Gair sy'n disgrifio **berf**, **ansoddair** neu **adferf** arall. Maent yn ateb y cwestiynau:

Sut? Ble? Pryd? Pam?

Enghreifftiau:

1. penderfynwyd **yn unfrydol** (ychwanegu at ein gwybodaeth am y ferf “penderfynu”)
2. yn **eithaf** pwysig (ychwanegu at ein gwybodaeth am yr ansoddair “pwysig”)
3. unwaith **eto** (ychwanegu at ein gwybodaeth am yr adferf “unwaith”)

Adferf / Adferfau adverb/s

Gellir ffurfio adferf drwy roi **yn** o flaen ansoddair e.e.

1. Cerddodd y disgyblion **yn gyflym**.

Mae '**yn gyflym**' yn disgrifio '**cerddodd**' ac mae'n ateb y cwestiwn: **Sut?**

2. Cyrhaeddodd Huw y cyfarfod **yn hwyr**.

Mae '**yn hwyr**' yn disgrifio '**cyrhaeddodd**' ac yn ateb y cwestiwn: **Pryd?**

Goddrych a gwrthrych berf *subject and object of the verb*

Esboniad:

GODDRYCH - yr un sy'n gwneud y weithred (*subject*)

GWRTHRYCH - yr un sy'n dioddef y weithred (*object*)

Darllenodd y disgybl lyfr da ddoe.

1. **y disgybl** - **goddrych** (yr un sy'n gwneud y weithred)

2. **lyfr da** - **gwrthrych** (yr un sy'n dioddef y weithred)

Meddylwch...



Pa air yn y frawddeg ganlynol ydy'r gwrthrych?

Mae Alun yn mynd i'r siop.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru

Ateb...



Pa air yn y frawddeg ganlynol ydy'r gwrthrych?

Mae Alun yn mynd i'r siop.



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales


www.athrofa.cymru

Munud i feddwl ...



Pa dechnegau caffael iaith a ddefnyddiwyd yn y ddarlith hon?



Tasg
ysgrifennu



Gwaith
pâr



Grŵp o
dri



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Centre for Education
Addysg i Gymru | Education for Wales

www.athrofa.cymru